CYNGOR TREF LLANBEDR PONT STEFFAN
CYFARFOD AGORED YNGLŶN Â GŴYL DDEWI 2018
NOS LUN 23AIN HYDREF 2017 @ 7PM
LLAIN CASTELL, LLANBEDR PONT STEFFAN

1. **CROESO'R CADEIRYDD**
   Croesawodd Y Dirprwy-Faer Llanbedr Pont Steffan, y Gynghorwraig Ann Morgan bawb i'r cyfarfod a dywedodd mai ei ddiben oedd trefnu Gorymdaith, Gig ac o bosibl gweithgareddau eraill, i ddathlu Gŵyl Ddewi yn Llanbedr Pont Steffan, ym 2018. (Dewi Sant : Nawdd Sant Cymru, sy'n cael ei gofio ar y 1af o Fawrth).

2. **YN BRESENNOL**
   Cyngor Tref Llanbedr Pont Steffan: Y Gyngh. Ann Morgan (Cadeirydd);
   Y Cyngh. Robert Phillips;
   Eleri Thomas (Clerc - Cyngor Tref Llanbedr Pont Steffan);
   Cered: Pat Jones; Steffan Rees;
   Urdd Ceredigion: Sian Elin Williams;
   Hanes Llambed: Eric Williams;
   Capel Bethel Parc-y-Rhos: Elma Phillips;
   Capel Brondeifi: Eryl Jones;
   Sefydliad y Merched, Coedmor: Mary Davies;
   Merched y Wawr: Morwen Thomas;
   Capel Noddfa: Alun Williams;
   Shân Jones.
   YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB
   Ymddiheurodd y canlynol am eu hanallu i fynychu'r cyfarfod:
   Y Maer a Chadeirydd Cyngor Tref Llanbedr Pont Steffan a'r Cynghorydd Sirol Hag Harris;
   Y Cyngh. Rhys Bebb Jones (Cyngor Tref Llanbedr PS);
   Y Cyngh. Selwyn Walters (Cyngor Tref Llanbedr PS);
   Gwen Davies;
   Janet Evans;
   Gareth Jones (Eglwys Efengylaidd Llanbedr Pont Steffan);
   Llinos Jones (Ysgol Bro Pedr);
   Verena Roberts.

3. **YR ORYMDAITH**
   Dyddiad ac Amser
   Penderfynwyd ar ddydd Gwener yr 2ail o Fawrth 2018 am 1pm fel y dyddiad i gynnal yr orymdaith, petai'n gyfleus ar gyfer yr ysgolion.
   Pwy fydd yn cymryd rhan?
   Cytunwyd i gynnwys ysgolion yn Nhalgylch Ysgol Bro Pedr, Llanbedr Pont Steffan, sef Ysgol Bro Pedr; Carreg Hirfaen; Llanybydder; Bro'r Dderi; Dyffryn Cledlyn a Llanllwni (Blynyddoedd 5 a 6).

Gwahoddir mudiadau, er enghraifft Eglwysi, Clybiau a Chorau, Sefydliad y Merched; Hanes Llambed; Clybiau Pêl-droed / Rygbi.
CYTUNWYD i gysylltu â Mr Gwynne Davies i holi ynglŷn â llogi uchelseinydd, i arwain yr orymdaith a Chôr Cwmann i ddilyn. Nid yw Band y Sir Ceredigion ar gael ar y diwrnod hwnnw. Chwareir caneuon Cymreig a geiriau ar gynnig ar daflenni i'w dosbarthu. Bydd pob sefydliad a gynrychiolir, yn chwifio baner.

Rheoli Traffig
CYTUNWYD: Steffan Edwards i gysylltu â'r Heddlu mewn perthynas â Rheoli Traffig. Bydd yn angenrheidiol bod stewardiad ar ddyletswydd.

Y Daith/Llwybr
Bydd yr orymdaith yn cychwyn ger Ysgol Bro Pedr, heibio Cartref Hafan Deg; troi i'r dde ar gyfer y Stryd Fawr; troi i'r dde ar gyfer Stryd St Thomas ac i'r Cwmins - troi i'r chwith ar gyfer Stryd Newydd a cherdded trwy Stryd Newydd; Troi i'r chwith i Stryd y Bont a bwrw ymlaen i gyfeiriad Sgwâr Harford - troi i'r dde i Stryd y Coleg - troi i'r chwith ar y gylchfan ar gyfer Parc-yr-Orsedd.

Yna bydd disgyblion yn mynd i Neuadd Fictoria. Bydd Sian Elin (Urdd) yn arwain Jambori yn y neuadd am 2pm. Ceisir cymorth disgyblion uwchradd Ysgol Bro Pedr, sy'n gysylltiedig â'r Urdd. Cysylltir â Sam Ebenezer.
CYTUNWYD i logi'r neuadd ar gyfer prynhawn Gwener 2ail o Fawrth 2018 (Y Gyngh. Ann Morgan).

Petai'r tywydd yn caniatau bydd oedolion yn derbyn mynediad i Barc-yr-Orsedd; heblaw hynny, fe'u harwenir at ystafell yn Neuadd Fictoria. Ystyriwyd ystafell yn y Coleg, pe na bai'r tywydd yn ffafriol ee Neuadd y Celfyddydau. Ystyriwyd Sgwâr Harford yn le anaddas i ymgynnull.

Ym Mharc-yr-Orsedd
PENDERFYNWYD gofyn i'r Maer y Cyngh. Hag Harris i agor y Digwyddiad ym Mharc-yr-Orsedd.

Gwahoddir unigolion blaenllaw o fewn y gymuned er enghraifft:
Elin Jones AC; Ben Lake AS; Gary Slaymaker; Gwawr Edwards; Gillian Elisa a rhai chwaraewyr rygbi.

Gobeithir y bydd Côr Cwmann yn medru canu ym Mharc-yr-Orsedd; bydd angen anfon gwahoddiad ffurfiol i Gadeirydd Côr Cwmann. Yn ogystal bydd rhaid gosod llwyfan mewn lle.

4. Y GIG YN NEUADD FICTORIA
Trefnir y Gig mewn partneriaeth â'r Urdd a *Chered.* Ystyriwyd bandiau ee Candelas; Yr Eira. Gallai bandiau lleol berfformio ar ddechrau'r gyngerdd, ee enillwyr Cystadleuaeth Eisteddfod Ysgol Bro Pedr.
Mae Neuadd Fictoria eisoes wedi ei llogi ar gyfer nos Wener 2ail o Fawrth

2018.
Bydd Bar ar gynnig a mesurau diogelwch mewn lle. Ymgymerir â gwiriadau adnabyddaieth a bydd alcohol yn cael ei gyfyngu i un gwydr y pen. Bydd staff yr Urdd ar ddyletswydd. **CYTUNWYD** Sian Elin i lunio'r posteri.

5. **GWEITHGAREDDAU PELLACH**
   - **5.1 Te Cymreig:** Gellir eu cynnig o fewn y Caffis, mewn partneriaeth â'r Siambr Fasnach Llanbedr Pont Steffan.
   - **5.2 Cystadleuaeth Addurno Ffenestr**: Gellid trefnu cystadleuaeth. Mae tariannau wedi eu cyflwyno'n Aberystwyth.
   - **5.3 Gellid arddangos bras y ddrutan** / baneri yn y dref. **CYTUNWYD** i ddarganfod yng nghyfarfod nesaf y Cyngor Tref petai angen caniatâd Cyngor Sir Ceredigion i arddangos y baneri.

6. **HYSBYSEBU'R DIGWYDDIAD**
   CYTUNWYD i osod erthygl yn y *Clonc* i hysbysebu'r digwyddiad - Chwefror 2018.

7. **NODDWYR**
   Bydd y Cyngor Tref a *Chered* yn noddi'r digwyddiad, mewn rhan. Dywedwyd y gellid dod o hyd i arian o bosibl dan law'r cynllun "Noson Allan".
   Gellid cysylltu â busnesau. O ran yr arian a gasglwyd yn ystod *Ras yr Iaith*, ni wnaed unrhyw ymgais i dderbyn ad-daliad. Ystyriwyd bwcedi casglu; efallai y byddai angen trwydded i wneud hyn.
   Tâl mynediad i'r Gig - £10. Telir Ymddiriedolaeth Datblygu Transition Llambed ffÎ am hurio Neuadd Fictoria; mae'n debygol y bydd y Neuadd yn cadw enillion y bar.

   Gallai *Cered* ganolbwyntio ar un elfen a bod yn rhan o'r ochr fasnachol ee cwrdd â'r gost o darian i Enillydd Cystadleuaeth Addurno Ffenestri Siop.

   PENDERFYNWYD amcangyfri'r gyllideb ar gyfer y Digwyddiad erbyn y cyfarfod nesaf.
   Bydd cynrychiolwyr yr Urdd yn bresennol yn ystod y prynhawn a'r noson.

   Daeth y cyfarfod i ben am 8.10pm.

8. **DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF**: Dydd Llun 27ain Tachwedd 2017 am 7.30pm. Lleoliad i'w gadarnhau

==========